WG35.5.12

# Claddedigaeth

# MR. THOMAS DAVID,

1, DESPENSER STREET, CAERDYDD.

---

*Blaenor, ac Arweinydd y Canu am flynyddoedd yn Bethania, Docks, Caerdydd.*

---

BU FARW RHAGFYR 10, 1902,

**Yn 63 mlwydd oed.**

---

Cleddir yn Mynwent Capel y Methodistiaid Calfinaidd, Llantrisant, Dydd Sadwrn, Rhagfyr 13eg, 1902.

---

GWASANAETHIR GAN Y

Parch. J. MORGAN JONES, Caerdydd.

XR05 307751

# Emynau.

## 1. ABERGELE.

MOR ddedwydd yw y rhai trwy ffydd
Sy'n myn'd o blith y byw;
Eu henwau'n perarogli sydd,
A'u hûn, mor dawel yw!

Ar ol eu holl flinderau dwys,
Gorphwyso maent mewn hedd,
Yn mhell o swn y byd a'i bwys,
Heb boen, yn llwch y bedd.

Llais un gorthrymydd byth ni ddaw
I'w deffro i wylaw mwy,
Na phrofedigaeth lem, na chroes—
Un loes ni theimlant hwy.

---

## 2. SANDON.

(Cyfieithiad Mr. T. David o Emyn Newman).

OLEUNI'R Byd, trwy'r tywyll anial le,
O, arwain fi;
Mae'r nos yn ddu, a minau'n mhell o dre,
O, arwain fi;
Cyfeiria'm traed—nid wyf yn gofyn am
Olygfa bell, digonedd im' un cam.

Fel arall bum yn hir—ni cheisiwn fawr
D'arweiniad Di;
Fy ffordd fy hun ddewiswn, ond yn awr
D'arweiniad Di;
Dydd rhwysg fwynhawn, ac er rhyw ofnus hynt,
Balch oedd fy mryd; na chofia'r dyddiau gynt.

Gan i Ti'm dwyn mor bell, gwn dygi fi
Dros rhiw a rhos,
Dros gors a chreigle, a rhyferthwy'r lli',
Nes ffy y nos;
A chyda'r wawr daw gwenau nefol fryd,
Rhai gerais gynt, ond gollais am ryw hyd.

Y llwybr cul a gerwin deithiaist ti,
F'Arweinydd cu,
Mewn mabaidd ffydd ei deithio gad i mi,
Tua'm cartref fry;
I orphwys byth oddiwrth flinderau'r daith,
Yn ngoleu clir y tragwyddoldeb maith.

## 3. MOAB.

AR lân Iorddonen ddofn,
'Rwy'n oedi'n nychlyd,
Mewn blys myn'd trwy, ac ofn
Ei stormydd enbyd:
O! na b'ai modd i mi
Ysgoi ei hymchwydd hi,
A hedfan uwch ei lli'
I'r Ganaan hyfryd.

Wrth gofio grym y dwr,
A'i thonog genlli',
A'r mynych rymus wr
A suddodd ynddi,
Mae braw ar f'enaid gwan
Mai boddi fydd fy rhan,
Cyn cyrhaedd tawel lan
Bro y goleuni.

Ond pan y gwelwyf draw
Ar fynydd Seion,
Yn iach, heb boen na braw,
Fy hen gyfeillion,
Paham yr ofnaf mwy?
Y Duw a'u daliodd hwy
A'm dyga innau drwy
Ei dyfroedd dyfnion.

## 4. Y NEFOEDD.

AR ol gofidiau dyrys daith,
A gorthrymderau filoedd,
Hyfrydol falm o nefol ryw
I'r wan, flinedig, fynwes yw
Cawn orphwys yn y nefoedd.

Mor felus meddwl ambell awr,
  Yn nghanol blin dymhestloedd,
Os gwyntoedd geirwon geir o hyd
Tra'n hwylio tonog fôr y byd
  Mae'n dawel yn y nefoedd.

Er loesau chwerwon anial fyd,
  A llid gelynion luoedd,
O fewn y byd tu draw i'r bedd,
Mewn annherfynol fôr o hedd,
  Cawn nofio yn y nefoedd.

Cyfeillion ini heddyw sydd
  O fewn y fro yn lluoedd,
Heb deimlo yno unrhyw loes,
Na gofid blin, na chur, na chroes,
  Yn canu yn y nefoedd.

Er rhodio dyffryn galar prudd,
  Ac wylo maith flynyddoedd,
Ein Duw a sych ein dagrau'n lân,
Ein galarnadau droir yn gân
  Heb ddarfod, yn y nefoedd.

Hiraethu mae fy nghalon drist
  Am wel'd y teg ardaloedd;
Fy Nuw, fy Iesu, O fy Nhad!
A gaf fi dd'od i'r hyfryd wlad,
  I'th foli yn y nefoedd!

---

## 5. BETHEL, neu OLD DERBY.

O FRYNIAU Caersalem ceir gweled
  Holl daith yr anialwch i gyd;
Pryd hyn y daw troion yr yrfa
  Yn felus i lanw ein bryd;
Cawn edrych ar stormydd, ac ofnau,
  Ac angau dychrynllyd, a'r bedd,
A ninnau'n ddiangol o'u cyrhaedd,
  Yn nofio mewn cariad a hedd.

Evans a Williams, 97, Frederick Street, Caerdydd.